| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **17 TACHWEDD 2021** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ac Archwiliad perthnasol** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;**<br>• **Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;**<br>• **Llythyr Cynrychiolaeth** |
| ARGYMHELLIAD | **Cymeradwyo'r wybodaeth** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**1. CYFRIFON 2020/21**

Mae Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2020/21 (ôl- archwiliad) wedi'u amgau yma ac yn rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Gronfa yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.

**2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU**

Mae'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar ddarganfyddiadau yr archwiliad.

**3. ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo –**

- y Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 (ôl-archwiliad)
- yr Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd
- y Llythyr Cynrychiolaeth.

**4. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN**

Bydd Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r holl gyflogwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa Bensiwn ar 25 Tachwedd 2021.